WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# System Gwybodaeth Adnoddau Dynol – **Cyngor Gwynedd**

Blwyddyn Archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 632A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru i infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Yr unigolion a gyflawnodd y gwaith oedd Paul Cunningham a Jeremy Evans.

# Cynnwys

Mae system Adnoddau Dynol mewnol Cyngor Gwynedd yn debygol o ddiwallu anghenion y Cyngor nawr ac yn y dyfodol, ond er bod risgiau datblygu yn cael eu rheoli, mae angen cryfhau'r trefniadau rheoli prosiect.

Adroddiad cryno

Cefndir 4

Diben yr adolygiad 5

Canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad 5

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae system Adnoddau Dynol mewnol Cyngor Gwynedd yn debygol o ddiwallu anghenion y Cyngor nawr ac yn y dyfodol, ond er bod risgiau datblygu yn cael eu rheoli, mae angen cryfhau'r trefniadau rheoli prosiect. 7

Mae'r Cyngor wedi lliniaru'r risgiau sy'n ymwneud ag adnoddau a sgiliau datblygu 8

Mae trefniadau rheoli prosiect ar waith, ond nid ydynt yn ddigon cynhwysfawr nac yn ddigon aeddfed 8

# Adroddiad manwl

## Cefndir

1 Mae systemau gwybodaeth Adnoddau Dynol yn rhan sylfaenol o gyflawni gwasanaeth Adnoddau Dynol cyfoes ac maent yn darparu cymorth ar gyfer prosesau Adnoddau Dynol a gwybodaeth fusnes hanfodol i sefydliadau. Gall systemau, drwy lif gwaith, gynorthwyo prosesau Adnoddau Dynol megis recriwtio, rheoli absenoldeb ac arfarnu staff. Mae gwybodaeth fusnes yn cynnwys data am absenoldeb o ganlyniad i salwch, cynllunio gweithlu a pherfformiad staff.

2 Yn draddodiadol, mae'r systemau hyn ar gael gan sefydliadau datblygu meddalwedd mawr. Y platfformau cyffredin a ddefnyddir gan lywodraeth leol yng Nghymru yw Northgate Resource Link a Midland iTrent. Mae systemau eraill ar gael hefyd. Mae modelau perchnogaeth yn amrywio o duedd i gostau ymlaen llaw, (prynu trwydded ac ymgynghori ar weithredu a chostau cymorth parhaus is) i un pan fo'r sefydliad yn prydlesu'r system yn fisol neu'n flynyddol. Yn aml, bydd sefydliadau hefyd yn dewis contractau sy'n cynnwys diweddariadau meddalwedd (diweddariadau system a deddfwriaethol), a chymorth i'r rhaglen.

3 Mae'r systemau parod hyn yn cymryd amser i'w gweithredu ar y cychwyn, a mwy o amser i weithredu modiwlau dewisol. Ni fydd pob sefydliad yn cymryd pob modiwl system y tu hwnt i gyfres graidd. Gallai prisiau'r systemau gynnwys yr holl ddewisiadau, pa un a ydych yn eu defnyddio neu beidio, neu gellid eu cyfrifo ar sail fesul modiwl.

4 Oherwydd maint a chymhlethdod y rhaglenni hyn, mae llawer o sefydliadau nad ydynt yn gallu cynnal datblygiad o'u system eu hunain. Mae'r system angen adnoddau helaeth i'w datblygu a'i chynorthwyo, ond hefyd mae'n cymryd amser er mwyn parau i'w datblygu a'i chynorthwyo.

5 I sefydliadau megis llywodraeth leol, nid yw'n hawdd denu staff datblygu na'u cadw ar gyfer cymorth a datblygu parhaus.

6 Yn 2009, dechreuodd Cyngor Gwynedd (y Cyngor) brosiect penodedig, gyda bwrdd prosiect, i brynu datrysiad integredig ar gyfer cyflogres/Adnoddau Dynol. Ymwelodd y Cyngor â llawer o leoliadau perthnasol a dangosodd darparwyr eu datrysiadau hwy. Er hynny, penderfynodd y Cyngor gadw ei system gyflogres bresennol a datblygu datrysiad Adnoddau Dynol mewnol a fyddai hefyd yn ganolfan reoli mynediad i systemau eraill.

## Diben yr adolygiad

7 Yn ein hadolygiad o Reoli Gwybodaeth 2016, fe wnaethom adrodd ar ddatblygiad mewnol y system reoli pobl (Adnoddau Dynol) fel gallu bod yn risg i'r Cyngor. Mae hyn oherwydd ei chymhlethdod, ei maint, a'r natur barhaus o fod yn ddibynnol ar staff datblygu.

8 Nodwyd yn ein gwaith blaenorol ar Dechnoleg Gwybodaeth[1], a Rheoli Gwybodaeth[2] yng Ngwynedd nad oes gan y system Adnoddau Dynol yr un ymarferoldeb â systemau eraill a ddefnyddir gan gynghorau yng Nghymru yn arbennig o ran ystod ei swyddogaethau hunanwasanaeth a'i darpariaeth o wybodaeth i reolwyr (e.e. data ar absenoldeb oherwydd salwch a chynllunio gweithlu). Fodd bynnag, mae'n diwallu anghenion y Cyngor o ran y Gymraeg mewn modd nad yw systemau perchnogol yn ei wneud. Mae gan y Cyngor gynllun datblygu gweithredol sy'n ceisio datrys y prif broblemau o ran swyddogaethau a gwybodaeth.

9 Diben yr adolygiad hwn yw edrych yn fanylach ar y risgiau y mae'r system hon yn eu peri i'r Cyngor. Yn rhan o'r adolygiad cynhaliwyd gweithgareddau adolygu dogfennau, arsylwi cyfarfodydd a chyfweliadau â staff allweddol yn y Cyngor. Ein nod oedd ateb y cwestiwn "A fydd system Adnoddau Dynol fewnol y Cyngor yn diwallu ei anghenion, nawr ac yn y dyfodol, heb beri risgiau o bwys o ran datblygu a chymorth?"

## Canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad

10 Daethom i'r casgliad y byddai system Adnoddau Dynol fewnol Cyngor Gwynedd yn debygol o ddiwallu anghenion y Cyngor, nawr ac yn y dyfodol, ond er bod y risgiau datblygu o dan reolaeth, mae angen cryfhau'r trefniadau rheoli prosiect. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

   a. bod y Cyngor wedi lliniaru'r risgiau cysylltiedig â sgiliau datblygu ac adnoddau
   b. mae trefniadau rheoli prosiect ar waith, ond nid yw'r rhain yn ddigon cynhwysfawr nac yn ddigon aeddfed.

## Cynigion ar gyfer gwella

11 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion ar gyfer ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd datblygiad ei system Adnoddau Dynol fewnol er mwyn ei helpu i fynd i'r afael â heriau nawr ac yn y dyfodol.

[1] 517A2016 Adolygiad o Dechnoleg Gwybodaeth Hydref 2016
[2] 399A2017 Diweddariad ar Reoli Gwybodaeth Gorffennaf 2017

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Adolygu a chryfhau trefniadau rheoli'r prosiect:<br>• Creu Dogfen Cychwyn Prosiect ffurfiol, ar sail Cylch Gorchwyl Bwrdd y Prosiect, sy'n cyfeirio at yr holl weithgareddau prosiect a dogfennaeth allweddol.<br>• Adolygu cyflwyniad matrics risgiau'r prosiect i leihau'r posibilrwydd o nodi bod pob risg yn gymedrol.<br>• Datblygu Strategaeth neu Gynllun Cyfathrebu ffurfiol a chyhoeddi adroddiadau prif bwyntiau yn rheolaidd. Cynnwys Tîm Cyfathrebu'r Cyngor mewn gweithgaredd i bennu enw priodol neu frand ar gyfer y gyfres o systemau Adnoddau Dynol a SSG.<br>• Datblygu rhaglen gwireddu buddion er mwyn gallu gwerthuso nodau'r prosiect datblygu yn briodol. |
| C2 | Adolygu'r dewisiadau technoleg o fewn y prosiect<br>• Gwella hygyrchedd er mwyn galluogi mwy o staff (er enghraifft y rhai hynny sy'n gweithio o bell) i ymgysylltu â'r system.<br>• Rhannu arfer da â chynghorau eraill.<br>• Rhwydweithio gyda chynghorau eraill i gasglu a rhannu enghreifftiau o arferion<br>• Ystyried defnyddio cwmwl. |

# Adroddiad manwl

## Mae system Adnoddau Dynol mewnol Cyngor Gwynedd yn debygol o ddiwallu anghenion y Cyngor nawr ac yn y dyfodol, ond er bod risgiau datblygu yn cael eu rheoli, mae angen cryfhau'r trefniadau rheoli prosiect.

13 Nododd Cyngor Gwynedd fod angen system Adnoddau Dynol newydd yn 2005. Cafodd swyddogion y Cyngor arddangosiadau gan sawl cyflenwr, gan gynnwys Midland, Northgate a Cyborg, yn ogystal â mynd i weld yr Agilsys ar waith yn Wrecsam. Fodd bynnag, penderfynodd y Cyngor nad oedd yr un o'r atebion oddi ar y silff yn addas. Datblygon nhw gyfres o achosion busnes ar gyfer datblygiad mewnol. Cymerodd y Cyngor, yn 2014, y penderfyniad i ariannu'r gyfres fewnol o fodiwlau AD.

14 Y materion a ystyriwyd yn y penderfyniad hwn oedd:

- a. Cost gyffredinol, gan gynnwys y gost am elfennau datrysiad safonol na fyddai'r Cyngor yn gwneud llawer o ddefnydd ohonynt;
- b. Integreiddio iaith yn rhwydd gan ddefnyddio Cymraeg a Saesneg; a
- c. Ffordd Gwynedd.

15 Y datrysiad a ddatblygwyd, System Swyddi Gwynedd (SSG) yw cronfa ganolog y systemau Adnoddau Dynol, ac mae'n creu canolfan ar gyfer rhaglenni eraill yn y gyfres, yn ogystal â chyflogres. Wrth ei chraidd, ceir cronfa ddata o'r holl swyddi a sefydlwyd yn y Cyngor, wedi'i chysylltu â Chyfeirlyfr Gweithredol (Active Directory) o ddeiliaid swyddi unigol. Mae cofnodion yn SSG yn cysylltu â chofnodion cyfatebol yn y gyflogres ac mewn systemau eraill. Mae sawl modiwl eisoes ar waith:

- a. staffio (SSG);
- b. cofnodion salwch;
- c. costau teithio;
- ch. newid manylion deiliad swydd, hunanwasanaeth; ac
- d. adrodd.

Ac mae nifer wrthi'n cael eu datblygu:

- dd. amserlenni ar-lein;
- e. hunanwasanaeth salwch;
- f. gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS);
- ff. sifftiau staff (seiliedig ar galendr);
- g. hunanwasanaeth offer adrodd; ac
- h. iechyd galwedigaethol.

## Mae'r Cyngor wedi lliniaru'r risgiau cysylltiedig â sgiliau datblygu ac adnoddau

16 Oherwydd y pryderon o amgylch y capasiti mewnol i ddatblygu, cynorthwyo ac adolygu unrhyw system newydd fewnol, mae'r Cyngor wedi penderfynu ar feddalwedd ac offer sydd wedi eu hen sefydlu ac a ddefnyddir yn eang. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r rhain i weithredu'r prosiect ac i ddatblygu'r amryw gynhyrchion y mae'n eu cynnwys, sef:

   a. Microsoft SQL

   b. Fframwaith Microsoft .NET

   c. Microsoft Active Directory

   Mae'r Cyngor yn defnyddio'r Fframwaith Agile Development[3]. Mabwysiadodd y Cyngor y dull hwn yn 2012.

17 Diolch i'r fframwaith hwn, mae'n bosibl cael gwell rheolaeth ar gostau datblygu. Dylid hefyd fod yn haws recriwtio staff i swyddi datblygu a chymorth parhaus, gan fod y sgiliau cysylltiedig yn gyffredin yn y farchnad gyflogaeth. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor 18 o ddatblygwyr wedi eu hyfforddi yn y dechnoleg hon, a ddefnyddir yn y prosiect hwn ond hefyd mewn datblygiadau eraill yn y Cyngor.

18 Un her sydd ar ôl, yw'r angen parhaus o sicrhau bod y staff yn ymgysylltu â'r systemau newydd. Oherwydd hyn, mae timau datblygu yn ymweld ag adrannau i hyrwyddo buddion y feddalwedd newydd a'r ffordd newydd o weithio sydd ei hangen er mwyn manteisio i'r eithaf arni.

19 Mae fersiynau datblygu a byw o'r gyfres modiwlau Adnoddau Dynol yn cael eu lletya ar weinyddwyr y Cyngor ar ei safle. Ceir risgiau yn ymwneud bod ar gael, perfformiad a chydnerthedd mewn systemau sy'n cael eu lletya yn fewnol, ond gellir lliniaru hyn drwy, er enghraifft, ddefnyddio datrysiad ar gwmwl.

## Mae trefniadau rheoli prosiect ar waith, ond nid ydynt yn ddigon cynhwysfawr nac yn ddigon aeddfed

20 Mae cefnogaeth y Cyngor i ddatblygu'r Gyfres Adnoddau Dynol yn amlwg; mae'r Prif Weithredwr a'r Cabinet yn ei chefnogi. Mae gan y Cyngor strategaeth Adnoddau Dynol wedi'i hen sefydlu ar waith, sef ei 'Cynllun Pobl' (2016-2018) sy'n cynnwys y strategaeth ddatblygu. Mae bwrdd y prosiect wedi'i strwythuro'n dda, ac

[3] I'r gwrthwyneb i ddull rheoli prosiect traddodiadol, megis PRINCE 2, mae Agile Project Management yn caniatáu i ddechrau gwaith ymlaen llaw cyn bod cynllun prosiect wedi'i gwblhau a'i derfynu. Mae cynllunio yn parhau tra bod y prosiect yn cael ei gyflawni, gan ganiatáu lefel uwch o lawer o hyblygrwydd ac ymatebolrwydd. Mae Agile Project Management yn dal i fod yn destun llywodraethu, gwerthuso a rheolaeth lem, ac mae'r pwyslais ar gyflawni o fewn yr amser a'r gyllideb y cytunwyd arnynt, gan ganiatáu i'r cwmpas cyflawni fod yn hyblyg er mwyn diwallu'r uchod.

mae'r swyddi allweddol wedi eu llenwi, gan gynnwys Rheolwr Prosiect, Uwch Ddefnyddiwr ac Uwch Gyflenwr.

21 Yr arfer yw datblygu Dogfen Cychwyn Prosiect (DCP) yn gynnar yn oes y prosiect, pa bynnag ddull o reoli prosiect a ddefnyddir. Ar gyfer system Adnoddau Dynol Gwynedd, nid oes DCP o'r fath yn bodoli. Fodd bynnag, ceir dogfen Cylch Gorchwyl ar gyfer Bwrdd y Prosiect. Gellid ymestyn y ddogfen yn rhwydd a'i datblygu i DCP.

22 Mae'r Cyngor yn defnyddio meddalwedd Microsoft Project i gefnogi'r cynnydd ar reoli prosiect , gan helpu i gadw'n gyfredol ag adnoddau sydd eu hangen a'r ddibyniaeth rhwng yr elfennau gwaith amrywiol. Er bod y siart Gantt yn dangos calendr y prosiect mewn manylder, ac yn cynnwys tasgau unigol ar gyfer datblygwyr mewn rhai achosion hyd yn oed, nid yw hyn yn gyffredin ar draws yr holl fodiwlau datblygu, ac mae diffyg o ran cerrig milltir cyflawni pendant ar gyfer cynhyrchion. Mae angen cynnwys y rhain er mwyn galluogi adolygiadau priodol o gynnydd.

23 Mae cofrestr risg ar gael ac mae'n nodi ac yn esbonio natur y risg sy'n wynebu'r prosiect, gan gynnwys cofnod o gamau lliniaru gyda sgôr matrics tebygolrwydd yn erbyn effaith. Mae'r gofrestr risg yn newydd ac efallai bydd angen amser i'w gweithredu. Mae'r matrics ar hyn o bryd yn gyfyngedig i 3 yn erbyn 3, sgôr uchel-canolig-isel, ar gyfer tebygolrwydd ac effaith. Mae defnyddio acsis eilrifau ar gyfer y matrics risg, megis 4 yn erbyn 4 yn rhoi gradd uwch o gydrannu. Mae hefyd yn osgoi ffafrio'r categori canol ar bob acsis, sy'n aml yn arwain at bob risg yn cael ei ystyried fel bod yn ganolig.

24 Mae tîm y prosiect wedi creu cofnod cyfathrebu. Mae'r cofnod hwn yn fanwl, felly mae'n anodd nodi blaenoriaethau ac asesu pa un a ydynt yn cael eu bodloni. Nid oes strategaeth na chynllun cyffredinol ar gyfer cyfathrebu. Mae staff y Cyngor yn ymwybodol bod gwaith ar y gweill i ddatblygu cyfres o feddalwedd Adnoddau Dynol, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r sylwadau o ddigwyddiadau sioe deithiol a gynhaliwyd gan dîm y prosiect. Fodd bynnag, nid oes hunaniaeth na 'brand' cyffredin ar gyfer y prosiect, a fyddai'n rhoi canolbwynt a helpu i godi ymwybyddiaeth.

25 Er y nodwyd rhai buddion, megis mynediad rhwyddach at wybodaeth, nid oes dull cyffredinol ar gyfer gwireddu buddion. Byddai'n werth datblygu rhestr lawn er mwyn sicrhau y gellir cyfiawnhau'r costau datblygu a bod gan y Cyngor ddarlun wedi'i gofnodi o'r hyn a ystyrir yn llwyddiant.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru